

## PRITCHETT teulu clerigol yn Sir Benfro, ond yn wreiddiol o ochrau Seisnig y Mers

Honnent eu bod yn disgyn o John de la Bere, 'menestr' Gwilym Goncwerwr, a digwydd yr enw 'Delabere' ddwywaith isod; ond yng nghofnodion y prifysgolion am wahanol Pritchetts (o siroedd Henffordd a Chaerwrangon), gelwir tadau'r rheini'n 'werinwyr' lle na bônt yn glerigwyr.

### RICHARD PRITCHETT

Daeth Richard Pritchett o Richard's Castle (ar ffin siroedd Henffordd ac Amwythig) i dref Arberth, yn rhan ola'r 17eg ganrif, yn feddyg trwyddedig, a bu'n ymarfer ei alwedigaeth yno 'am lawer o flynyddoedd'; priododd â Sarah, ferch Charles Evans o Ben-y-wenallt a chwaer **Theophilus Evans** (**Theophilus Jones**, *History of the County of Brecknock*, 3ydd arg., ii, 247). Daw dau o'i feibion dan sylw. Yr hynaf oedd

### RICHARD PRITCHETT (1709 - 1772)

Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1727, ac a raddiodd yno yn 1731, ond o Goleg y Brenin yng Nghaergrawnt y cafodd ei M.A. yn 1736. Priododd â'i gyfnither, ferch Josiah frawd **Theophilus Evans** (**Theophilus Jones**, loc. cit.); cafodd reithoraeth Richard's Castle, a bu farw yno 14 Hydref 1772.

Brawd iau iddo oedd

### DELABERE PRITCHETT (1713 - 1801)

Na wyddys ddim am ei yrfa fore ond nad oedd yn ŵr gradd, ac na ddigwydd ei enw chwaith yn recordiau'r prifysgolion. Fis Gorffennaf 1738 penodwyd ef yn athro'r ysgol ramadeg a gynhelid gan gabidwl Tyddewi (*W. Wales Hist. Records*, vi, 15, 23 - daliodd y swydd hyd 1754); yn 1742 daeth yn is-gantor yn yr eglwys gadeiriol; ac ar 14 Tachwedd 1743 rhoes yr esgob iddo fywoliaeth fechan Caeriw ('Carew'), a ddaliodd hyd ei farwolaeth - y mae'n amlwg na phreswyliodd yno, ond adroddir iddo ddifodi'r groglofft hardd, eithr ar y llaw arall iddo roi (neu adael) arian at helaethu cyflog y ficeriaid (**Spurrell**, *Hist. of Carew*). Ar 25 Gorffennaf 1752 penodwyd ef yn guraid parhaol plwyf Tyddewi (*W. Wales Hist. Records*, iii, 279). Bu farw yn Nhyddewi yn 1801 (*Gents. Mag.*, 1801 ii, 1214-5) 'yn 87 oed, wedi bod yn is-gantor am 58 mlynedd ac yn offeiriad plwyf am 49' - gwelir fod ei gyswllt â Chaeriw 'n cael ei anwybyddu. Chwanegir iddo weithredu fel meddyg yn yr ardal, gan nad oedd feddyg trwyddedig yn nes at na Hwlffordd, 16 milltir ymaith; a bod ganddo ddau fab a dwy ferch, a rhes hir o ŵyrion.

Efeilliaid oedd y meibion, mor debyg i'w gilydd nes eu cymysgu'n fynych yng Nghaergrawnt; ond nid aethant yno yn yr un flwyddyn.

### RICHARD PRITCHETT (1743 - 1811), rheithor

Ganwyd yn Nhyddewi 29 Mehefin 1743) yn ysgol Marlborough; aeth i Goleg S. Ioan yng Nghaergrawnt yn 1759. Graddiodd (3ydd dosbarth mewn mathemateg) yn 1763 (B.D. 1773), ac etholwyd ef yn gymrawd o'i goleg yn 1764; daliodd amryw swyddi ynddo, 1771-82; penodwyd ef yn rheithor Layham (Suffolk) yn 1781, a bu farw yno 17 Rhagfyr 1811.

Bu ei frawd

### CHARLES PIGOTT PRITCHETT (1743 - 1813), prebend

yntau yn Marlborough ac aeth i Goleg S. Ioan yn 1760; graddiodd (yn 'honorary wrangler,' h.y. â safle cyfatebol i'r dosbarth blaenaf mewn mathemateg) yn 1764. Yn 1767 yr oedd yn gaplan Coleg y Brenin (nid yn gymrawd fel y dywed y *D.N.B.*); ond dychwelodd i Ddyfed yn 1780, pan benodwyd ef gan John Campbell o Cawdor (yr oedd yn gaplan iddo) yn rheithor S. Petrox gyda Stackpole Elidyr (*W. Wales Hist. Records*, iii, 304), a chyda hynny yn 1782 (op. cit., i, 269) yn ficer Castell Martin; o 1795 hyd 1796 yr oedd hefyd yn gylch-brebendari yn Nhyddewi (op. cit., v, 221), ond newidiodd y swydd honno yn 1796 (op. cit., v, 195) am brebend St. Nicolas, a ddaliodd hyd ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth. Anne Rogers, o Sir Benfro, oedd ei wraig. Bu farw 9 Awst 1813 yn S. Petrox. Cyn ei farwolaeth yr oedd ei brebend wedi ei rhoddi (op. cit., v, 195 - ond y mae'r nodyn yn gamarweniol), ym mis Gorffennaf, i'w fab Delabere.

### DELABERE PRITCHETT (bu farw 1841)

Aeth i Goleg y Drindod yng Nghaergrawnt yn 1792 a graddiodd (ail' ddosbarth mewn mathemateg) yn 1796. Bu ef farw yn 1841.

### JAMES PIGOTT PRITCHETT (1789 - 1868), pensaer

Roedd mab arall i Charles Pigott Pritchett yn bensaer o gryn fri yng Nhaerefrog, Annibynnwr, a dyngarwr blaenllaw yn ei ddinas - y mae ysgrif arno yn y *D.N.B.*

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Y ffynonellau a enwyd uchod, gyda manylion a gafwyd o gyfrol nas cyhoeddwyd eto o *Alumni Cantabrigienses*, trwy hynawsedd y golygydd, y Venn, pennaeth Coleg Queens

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748869

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). PRITCHETT teulu clerigol yn Sir Benfro, ond yn wreiddiol o ochrau Seisnig y Mers. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIT-HET-1675>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modur gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government